

<i>Gweithredoedd a Chyfrifoldebau</i>	<i>Amserlen</i>	<i>Cyfranogwyr</i>
Clystyrau i adnabod 'Arweinydd Asesu' ar gyfer CA2 a CA3. Eu rôl fydd derbyn a rhannu gwybodaeth am y broses i weddill y clwstwr.	Anfon yr enwau, e-bost a rhif ffôn at: dafyddrhys@gwegogledd.cymru erbyn Dydd Gwener, Ionawr 31ain	Penaethiaid
Cyfle i 'Arweinwyr Asesu' fynychu sesiwn gwybodaeth leol gyda GwE - bwriadwn gynnal sesiynau hwyrnos ar draws y rhanbarth.	Wythnos yn dechrau Dydd Llun, Chwefror 10fed	'Arweinwyr Asesu' Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE
'Arweinwyr Asesu' i sicrhau fod pob ysgol o fewn y clwstwr yn ymwybodol o ofynion safoni a chymedroli a'r adnoddau sydd ar gael. Anfon dyddiadau cyfarfodydd cymedroli clwstwr terfynol i GwE.	Gyrru'r dyddiadau i: dafyddrhys@gwegogledd.cymru Erbyn Dydd Gwener, Chwefror 28ain	Penaethiaid Arweinwyr Asesu
Clystyrau i safoni ac ysgolion i gymryd rhan mewn deialog proffesiynol a chymedroli mewnol	Tymor yr Hydref - Gwanwyn	Athrawon yn yr ysgolion
Penaethiaid / Arweinwyr Asesu i drefnu a hyrwyddo cyfarfodydd clwstwr ar gyfer deialog proffesiynol a chymedroli cyrhaeddiad disgyblion. Mae'r gofynion statudol yn nodi y dylid cymedroli gwaith un disgybl ar Lefel 4 a 5 yn CA2 a Lefel 5 a 6 yn CA3 yn y pynciau craidd	Cyfarfodydd cymedroli clwstwr terfynol i ddigwydd yn nhymor y Gwanwyn a/neu'r Haf.	Penaethiaid Arweinwyr Asesu Ysgolion yn y clwstwr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant
Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.		